


# Beibl i Blant yn cyflwyno

## Tristwch yn dod i'r byd



Awdur: Edward Hughes  
Lluniau gan: Byron Unger; Lazarus

Cyfieithydd: Catrin Roberts  
addaswyd gan: M. Maillot; Tammy S.

Stori 2 o 60

[www.M1914.org](http://www.M1914.org)

*Bible for Children, PO Box 3, Winnipeg, MB R3C 2G1 Canada*

Trwydded: mae gennych hawl i gopïo neu argraffu'r stori hon, ar yr amod nad ydych yn ei gwerthu.

Welsh

CREODD DUW BOPETH! Pan greodd Duw'r dyn cyntaf, Adda, roedd yn byw yng Ngardd Eden gyda'i wraig, Efa.




1

Roedden nhw'n berffaith hapus yn ufuddhau i Dduw a mwynhau ei gwmi nes un diwrnod...




2




Gofynnodd y sarff i Efa, "Ydy Duw wedi dweud wrthoch chi am beidio bwyta ffrwyth pob coeden?"

3



"Fe gawn ni fwyta unrhyw ffrwyth ond un," atebodd, "os wnawn ni fwyta neu gyffwrdd y ffrwyth yna, fe wnawn ni farw." "Wnewch chi ddim marw," meddai'r sarff gan wenu'n slei.

4



"Fe fyddwch chi'n dod yn debyg i Dduw," Roedd Efa eisiau ffrwyth y goeden honno. Gwrandawodd ar y sarff a bwyta'r ffrwyth.

5




Ar ôl i Efa anufuddhau i Dduw, dyma hi'n arwain Adda i fwyta'r ffrwyth hefyd. Fe ddylai Adda fod wedi dweud "Na! Dydw i ddim yn mynd i fod yn anufudd i Air Duw."

6



Ar ôl i Adda ac Efa bechu, fe wnaethon nhw sylweddoli bod nhw'n noeth. Dyma nhw'n gwneud ffedogau allan o ddail ffigys a'u gwisgo, ac yna cuddio tu ôl i goeden, allan o olwg Duw.


7




Gyda'r nos daeth Duw i'r ardd. Roedd yn gwybod beth oedd Adda ac Efa wedi ei wneud. Rhoddodd Adda y bai ar Efa, a rhoddodd Efa y bai ar y sarff. Dywedodd Duw, "Mae'r sarff wedi ei felltithio. Bydd y wraig yn dioddef poen wrth eni plant."

8

"Adda, achos bod ti wedi pechu, bydd drain a mieri yn felltith ar y ddaear. Bydd yn rhaid i ti weithio a chwysu er mwyn cael bwyd bob dydd."




9




Fe wnaeth Duw i Adda ac Efa adael yr ardd hyfryd. Am eu bod nhw wedi pechu, fe gawson nhw eu gwahanu oddi wrth y Duw oedd wedi rhoi bywyd iddyn nhw!

10




Creodd Duw gleddyf tanllyd i'w cadw allan. Gwnaeth ddillad o groen i Adda ac Efa. O ble cafodd Duw'r crwyn?

11




Mewn amser, cafodd Adda ac Efa blant. Roedd eu mab cyntaf, Cain, yn arddwr. Bugail oedd yr ail fab, Abel.

12



Un diwrnod rhoddodd Cain lysiau yn anrheg i Dduw. Rhai o'i ddefaid gorau oedd anrheg Abel i Dduw. Roedd anrheg Abel yn plesio Duw.

13



Doedd anrheg Cain ddim yn plesio Duw. Aeth Cain yn flin iawn. Ond dywedodd Duw, "Os wnei di'r hyn sy'n iawn, fe gei di dy dderbyn."

14

Daliodd Cain ati i deimlo'n flin. Ychydig yn ddiweddarach ymosododd ar Abel mewn cae - a'i ladd!



15

Siaradodd Duw gyda Cain. "Ble mae dy frawd, Abel?" Dywedodd Cain gelwydd wrth ateb "Wn i ddim". "Ydw i'n gyfrifol am fy mrawd?" Collodd Cain ei fferm fel cosb, a gwnaeth Duw iddo grwydro o le i le o hynny mlaen.



16

Collodd Cain ei gyfeillgarwch gyda Duw. Priododd ferch i Adda ac Efa a dechrau magu teulu. Cyn hir, roedd y ddinas a adeiladodd Cain yn llawn o'i wyrion a'i or-wyrion.



17

Yn y cyfamser, tyfodd teulu Adda ac Efa yn gyflym. Bryd hynny roedd pobl yn byw yn lot hirach na heddiw.



18

Pan gafodd ei mab Seth ei eni, dywedodd Efa, "Mae Duw wedi rhoi Seth i mi yn lle Abel." Roedd Seth yn ddyn duwiol. Cafodd fyw nes ei fod yn 912 oed ac roedd ganddo lawer o blant.




19

Aeth pobl y byd yn fwy a mwy drwg wrth i un genhedlaeth ddilyn y llall.



20

Yn y diwedd, penderfynodd  
Duw gael gwared â'r bobl ...  
a'r holl creaduriaid  
a'r adar.




21

Roedd Duw yn sori ei fod wedi  
creu'r ddynoliaeth. Ond roedd  
un dyn yn plesio Duw...



22

Enw'r dyn oedd Noa. Roedd  
yn ddisgynnydd i Seth.  
Roedd Noa yn ddyn da  
iawn, yn gwneud dim  
drwg. Roedd yn  
agos iawn  
at Duw.



23

Dysgodd hefyd i'w dri mab  
ufuddhau i Dduw. Roedd  
Duw yn bwriadu defnyddio  
Noa mewn ffordd  
arbennig, ond  
rhyfedd  
iawn!



24

Tristwch yn dod i'r byd  
Stori o Air Duw, y Beibl  
sydd i'w gweld yn  
Genesis 3-6

"Pan ddatguddir dy air, bydd yn goleuo."  
Salm 119:130

Mae Duw yn gwybod bod ni wedi  
gwneud pethau drwg, beth mae e'n galw'n  
bechod. Y gosb am bechod ydy marwolaeth.

Mae Duw yn ein caru ni gymaint, fe wnaeth e anfon  
ei Fab, Iesu, i farw ar Groes. Fe wnaeth e gymryd ein  
cosb ni. **Daeth Iesu yn fyw eto** ac aeth yn ôl i'r  
Nefoedd! Nawr gall Duw faddau ein pechodau.

Os wyt ti am droi oddi wrth dy bechodau,  
beth am ddweud hyn wrth Dduw: Annwyl Dduw, rwy'n  
credu bod Iesu wedi marw drosaf fi a'i fod yn fyw eto.  
Os gweli'n dda tyrd i mewn i'm mywyd a maddau fy  
mhechodau, er mwyn i mi gael bywyd newydd nawr, ac  
yna cael bod gyda Thi am byth. Helpa fi i fyw fel  
plentyn i ti. Amen. Ioan 3:16

Cofia ddarllen y Beibl a siarad bob dydd gyda Duw!

